

Gweithlen

Meddyliwch am o ble y gallai llifogydd ddod, a pheryglon posibl pob math o lifogydd



Atebion

1. Trydan

Gallasai llifogydd dorri'r cyflenwad i gartrefi a busnesau. Mae dŵr yn dargludo trydan, felly mae trydanu'n berygl – byddwch ofalus yn ymyl peilonau.

2. Cau draeniau

Nid o'r mor neu o afonydd y daw llifogydd pob tro: gall cau draeniau eu hachosi nhw hefyd. Gwylwch rhag i ddail a sbwriel gau eich draeniau chi.

3. Goferiad dŵr wyneb

Bydd llawer o law'n boddî'r tir. Pan ddigwydd hynny, dechreuau'r dŵr lifo o wyneb y tir, gan achosi cerrynt peryglus sy'n medru cludo sbwriel. Gofal piau hi!

4. Afonydd

Dim ond hyn-a-hyn o ddŵr y gall afonydd ei ddal. Gallant orifo'u glannau a boddî'r tir cyfagos, sef y 'gorlifdir'.

5. Cerrynt cryfion

Mae llawer o ddŵr mewn afonydd yn creu cerrynt grymus sy'n medru ysgubo ymaith ganghennau, coed, a hyd yn oed ceir! Byddwch ofalus yn ymyl afonydd, a pheidiwch byth â mynd i ddŵr llifogydd.

5. Rhwystrau

Gall canghennau, coed a sbwriel arall fynd i afonydd a'u cau nhw. Gwna hynny'r llifogydd yn waeth.

6 a 7. Dŵr llifogydd yn eich cartref chi

Os â dŵr llifogydd i'ch cartref chi, gall achosi difrod a phroblemau mawrion. Mae adeiladau'n hir yn sychu, felly efallai y bydd rhaid i chi fyw yn rhywle arall. Ceisiwch atal cymaint o ddŵr ag y bo modd rhag dod i mewn.

8. Difrodi'ch eiddo chi

Gall dŵr llifogydd ddifetha'ch eiddo chi, ac yn aml bydd rhaid cael rhai newydd. Bydd hynny'n ddrud.

9. Y tŷ bach!

Gall dŵr llifogydd achosi i'ch tŷ bach chi ollwng. Gallai hynny fod yn fudr ac yn ddrewllyd iawn! Ach! Os yw hynny'n digwydd, cadwch draw, gan y bydd llawer o germau o gwmpas.